# Jack Thorne

# Gweithdy Addasu

## CYFLWYNIAD

Mae'r gweithdy hwn wedi'i seilio ar sgwrs gyda Jack Thorne, dramodwr (*Harry Potter and the Cursed Child*) ac awdur sgrin (*Aeronauts/Wonder/The Secret Garden*). Mae'r sesiwn hon, a ddatblygwyd ar y cyd â Chynghrair Sgrin Cymru a Bad Wolf, yn canolbwyntio ar ei addasiad o waith Philip Pullman ar gyfer y sgrin yn y gyfres BBC *His Dark Materials*.

### Oedran a meysydd pwnc:

Datblygwyd y sesiwn hon gyda myfyrwyr Safon Uwch mewn golwg, a bydd yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio Saesneg, y Cyfryngau neu Astudiaethau Ffilm.

### Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn:

Bydd yn cymryd tua 45 munud i wylio'r cyflwyniad cyfan. Fodd bynnag, fe'i rhannwyd yn 4 pennod i ganiatáu i chi ddewis rhan benodol o'r drafodaeth. Mae'r penodau wedi'u rhannu'n 4 maes.

1. Trafod y gwahaniaeth rhwng cyfryngau
2. Sut i benderfynu ar themâu a naratif ar gyfer yr addasiad
3. Y broses o ddatblygu cymeriadau a deialog
4. Ystyriaethau eraill ar gyfer y broses addasu.

Bydd y cwestiynau a ofynnir yn ystod y ffilm yn helpu i atgyfnerthu'r wybodaeth a roddodd Jack i'r gwylwyr a sicrhau eu bod wedi deall. Gellir eu cyflwyno fel cwestiwn trafod, neu fel tasg ysgrifenedig.




## ADRAN 1: TRAFOD Y GWAHANIAETH RHWNG CYFRYNGAU

Yn yr adran gyntaf hon, mae Jack yn sôn am y ffaith bod llyfr yn caniatáu i chi glywed llais mewnol rhywun, tra byddai'n rhaid i emosiwn gael ei fynegi mewn ffyrdd eraill ar y sgrin. Yn gyffredin, byddai hyn yn cael ei alw'n egwyddor 'Dangos, Dim Dweud'. Gofynnwch i'ch myfyrwyr ystyried llinell o destun o lyfr rydych yn ei astudio ar hyn o bryd, neu rydych yn gwybod y bydd y myfyrwyr yn ymwybodol ohono.

**A allan nhw amlygu darn y gellid ei gynrychioli'n well gan rywbeth arall? Efallai mynegiant wynebol, iaith y corff neu hyd yn oed gerddoriaeth?**

Un o'r dramâu y mae Jack wedi'i haddasu yn y gorffennol yw *A Christmas Carol* gan Charles Dickens. Fe'i hysgrifennwyd dros 150 o flynyddoedd yn ôl, felly mae'r iaith a ddefnyddiwyd yn wahanol iawn o ran arddull i iaith heddiw. Gallwch drafod hyn fel grŵp neu roi enghraifft i'r myfyrwyr o lyfr o oes Victoria neu gyfnod cynharach.

**Pa agweddau ar iaith fyddech chi'n ystyried eu newid, wrth addasu llyfr 100 mlwydd oed ar gyfer cynulleidfa heddiw?**

Yn olaf, cyfrwng gweledol yw'r teledu, ac wrth baratoi a dylunio golygfa ar gyfer criw ffilm, efallai y bydd angen i chi amlygu pethau gwahanol. Unwaith eto, gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis darnau byr o destun, neu cyflwynwch destun iddynt.

**Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r pwyntiau allweddol y byddech yn eu hystyried wrth gyflwyno'r olygfa honno mewn fformat i'w ddehongli gan griw cynhyrchu teledu neu ffilm.**

Pa elfennau y byddai'n bwysig tynnu sylw'r dylunwyr set atynt? Sut gallai'r set gael ei goleuo? A fyddai angen rhywfaint o ddylunio sain?



# ADRAN 2: SUT I BENDERFYNU AR THEMÂU A NARATIF AR GYFER YR ADDASIAD

Mae llyfrau'n brofiad mwy personol o lawer na rhaglen deledu neu ffilm, sy'n cael eu cynhyrchu er mwyn i lawer o bobl ryngweithio â nhw ar yr un pryd. Er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu dilyn y naratif, yn aml bydd rhai themâu ac isblotiau a oedd yn y llyfr gwreiddiol yn cael eu hepgor yn yr addasiad. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl yng nghyd-destun y llyfr diwethaf a ddarllenon nhw.

Dewiswch un naratif plot o'ch llyfr a chanolbwyntiwch ar y thema honno yn unig. Pa blotiau eraill ydych chi'n credu y gallech eu hepgor o ganlyniad? A oes unrhyw beth y byddech chi'n ei ychwanegu?

Yn aml, fe allai fod gan ffilmiau a rhaglenni teledu thema drosfwaol nad yw'n amlwg bob amser. Gallai digwyddiadau go iawn a deialog fod wedi'u cysylltu gan syniadau yn ymwneud â cholled, neu gyfeillgarwch.

A all y myfyrwyr amlygu thema drosfwaol rhaglen deledu neu ffilm maen nhw wedi'i gwylio'n ddiweddar?



# ADRAN 3: Y BROSES O DDATBLYGU CYMERIADAU A DEIALOG

Un pwynt perthnasol y mae Jack yn ei godi yn ystod y drafodaeth yw bod castio y dyddiau hyn yn ymwybodol o liw, nid dim ond yn lliwddall. Mae'n rhoi enghraifft o gastio Ariyon Bakare i chwarae rôl Lord Boreal yn y gyfres, ochr yn ochr â Ruth Wilson, sy'n chwarae rhan Mrs Coulter. Mae'r ddau ohonyn nhw'n bobl sydd ar y cyrion o gymharu â'r Magisterium gwyn.

**Pa mor bwysig yw hyn ym marn eich myfyrwyr, a beth yw rôl a chyfrifoldeb sinema/teledu o ran cynrychiolaeth gynhwysol?**

Yn yr un ffordd ag y gallai themâu gael eu golygu allan o addasiad, felly hefyd cymeriadau. Mae Jack yn dweud y penderfynon nhw beidio â chyflwyno cymeriad Toni Markos o'r llyfr, oherwydd bod trosglwyddo ei brofiadau i fachgen arall, sef Bill Costa, wedi rhoi rheswm iddynt archwilio ei fam yn ddyfnach fel cymeriad.

**Pa gymeriadau o lyfr y byddai eich myfyrwyr wedi hoffi iddynt gael eu harchwilio ymhellach?**

Yn olaf, wrth ddatblygu cymeriad ar gyfer addasiad, esboniodd Jack pam y cyflwynon nhw olygfeydd newydd nad oeddent yn y llyfrau. Gofynnwch i'ch myfyrwyr ddychmygu eu bod wedi cael y cyfle i addasu llyfr.

**A allent gymryd cymeriad o lyfr o'u dewis ac amlinellu pa newidiadau fyddai'n briodol pe byddai cenedligrwydd neu ethnigrwydd y cymeriad yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol?**

Yn yr achos hwn, dylid gofalu peidio â defnyddio stereoteipiau. Yn hytrach, dylid canolbwyntio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil dewis rhywun sy'n siarad iaith wahanol neu sydd â threftadaeth wahanol.

“Sut byddech chi’n ei rannu’n 8 pennod?”

# ADRAN 4: YSTYRIAETHAU ERAILL AR GYFER Y BROSES ADDASU

Yn ystod y sgwrs, mae Jack yn awgrymu pe byddai ganddo lai o brofiad o’r diwydiant, efallai y byddai wedi mynd ati’n wahanol i ystyried faint y byddai’n ei chostio i gyflwyno sgript. Yn gyffredinol, byddai’r gyllideb fesul munud ar gyfer ffilm yn uwch o lawer na rhaglen deledu, y mae’n rhaid iddi gynhyrchu 8 pennod, efallai, am lai o arian. Pa effaith mae eich myfyrwyr yn credu y bydd hynny’n ei chael?

**Yn eu barn nhw, beth yw’r gwahaniaeth rhwng teledu a ffilm o ran stori yn benodol?**

O ran cynulleidfa, mae Jack yn dweud bod *His Dark Materials* yn ceisio bod yn sioe Cwadrant 4 sy’n apelio at blant ifanc, oedolion ifanc, oedolion a’r henoed. Er ei fod yn trafod y ffaith y gallai pobl ifanc fwynhau cynnwys heriol, mae cyfyngiadau’n bodoli. Gofynnwch i’ch myfyrwyr feddwl am raglen deledu a ddarlledwyd ar ôl y trothwy neu ffilm â thystysgrif 15 oed neu uwch.

**Pa newidiadau fyddai eu hangen ar lefel sgript i’w gwneud yn ffilm â thystysgrif PG, neu’n rhaglen deledu Cwadrant 4, fel y trafodwyd gan Jack yn y cyflwyniad? A oes goblygiadau pellach i’r stori?**

Her arall wrth wneud addasiad ar ffurf cyfres yw’r angen i gael naratif ym mhob pennod. Unwaith eto, gallech roi llyfr i’ch myfyrwyr y maen nhw i gyd yn gyfarwydd ag ef neu ofyn iddynt ddewis llyfr.

**Sut byddech chi’n ei rannu’n 8 pennod? A fyddai angen i chi ei wneud yn anlinellol?**

Weithiau, bydd angen cyflwyno cymeriadau’n gynharach neu ddefnyddio ôl-fflachiau i adrodd stori. A fyddai hynny’n wir yn yr achos hwn?

HAY FESTIVAL EDUCATION
SCREEN ALLIANCE WALES
BADWOLF
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government